

# **Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr**

**Gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid a  
chyfraith hylendid bwyd yn ystod  
cynhyrchu cynradd**

**Mis Mawrth 2022**

# Cynnwys

Crynodeb	3
Statws cyfreithiol	3
Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn?	3
Dyddiad adolygu	3
Prif bwyntiau	3
Cyflwyniad	4
Blaenoriaethau Cenedlaethol 2022/23	5
Blaenoriaethau Bwyd Anifeiliaid	7
Blaenoriaeth 1: Gwirio bod systemau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu a'u cynnal a chadw'n effeithiol	7
Blaenoriaeth 2: Gwirio bod systemau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid mewn busnesau sy'n cyflenwi cyn-fwydydd neu gyd-gynhyrchion yn cael eu gweithredu a'u cynnal a chadw'n effeithiol	8
Blaenoriaeth 3: Monitro bwyd anifeiliaid ar ffermydd yn effeithiol	10
Blaenoriaeth 4: Monitro trefniadau storio effeithiol mewn safleoedd bwyd anifeiliaid	11
Blaenoriaeth 5: Gwirio cywirdeb labelu bwyd anifeiliaid	11
Blaenoriaeth 6: Monitro llwythi bwyd anifeiliaid o wledydd y tu allan i'r UE mewn mannau cyrraedd yn effeithiol	12
Blaenoriaethau Hylendid Bwyd: Cynhyrchu Cynradd	13
Blaenoriaeth 7: Nodi, cofrestru ac arolygu busnesau bwyd sy'n cynhyrchu cynnyrch ffres risg uwch ar lefel cynhyrchu cynradd yn effeithiol.	13
Canllawiau	14
Bwyd Anifeiliaid	14
Safonau'r Diwydiant	16
Bwyd Anifeiliaid a Fewnforir	17
Hylendid Bwyd Anifeiliaid: Cynhyrchu Cynradd	17

# Crynodeb

Nod y cyhoeddiad hwn yw rhoi arweiniad i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr wrth iddynt flaenoriaethu cynnal rheolaethau swyddogol ar gyfer:

- bwyd anifeiliaid (ym mhob cam cynhyrchu, prosesu, storio, cludo a dosbarthu, gan gynnwys mewnforio/allforio a chynhyrchu cynradd);
- hylendid bwyd yn ystod cynhyrchu cynradd.

## Statws cyfreithiol

Dylid ystyried y Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol (NEPs) ochr yn ochr â'r [Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r canllawiau ymarfer priodol](#). Mae dolenni at ddeddfwriaeth a chanllawiau i gefnogi awdurdodau lleol wrth ymgorffori'r blaenoriaethau hyn yn eu cynllun blynyddol ar gyfer rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid ar gael yn y ddogfen hon.

**Bwriad y blaenoriaethau canlynol yw cefnogi awdurdodau lleol i ganolbwyntio eu rheolaethau swyddogol a gynhelir ar yr amllder a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.**

## Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn?

Bwriedir y ddogfen hon yn bennaf ar gyfer swyddogion gorfodi awdurdodau lleol. Fodd bynnag, bydd hefyd o ddiddordeb i bob gweithredwr busnes bwyd a'r gweithredwyr busnesau bwyd hynny ar lefel cynhyrchu cynradd, cynlluniau sicrwydd diwydiant a gymeradwyir gan yr ASB, a chyrrff sicrwydd yn y sector preifat. Noder bod rhai o'r dolenni yn y ddogfen ar gael i swyddogion gorfodi awdurdodau lleol yn unig.

## Dyddiad adolygu

Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu cyn mis Mawrth 2023.

## Prif bwyntiau

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r canlynol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB):

- Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr, mewn perthynas â bwyd anifeiliaid ar bob lefel gynhyrchu a/neu gyflenwi a hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd

- y disgwyliadau i awdurdodau lleol roi'r blaenoriaethau hyn ar waith, lle bo'n briodol, wrth gyflawni eu rhaglenni ymyriadau

## Cyflwyniad

Amcanion y blaenoriaethau yw:

- ysgogi dull cynnal rheolaethau swyddogol sydd wedi'i seilio ar gudd-wybodaeth (*intelligence*), gan ganolbwyntio adnoddau ar fusnesau risg uwch a'r rheiny nad ydynt yn cydymffurfio, a rhoi mwy o ffocws ar ganlyniadau
- sicrhau chwarae teg ar gyfer busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cydymffurfio, sef rhywbeth sydd er budd y diwydiant yn ei gyfanrwydd ac yn cefnogi y fasnach bwyd a bwyd anifeiliaid
- lleihau beichiau diangen trwy ganolbwyntio gweithgarwch awdurdodau lleol ar feysydd cytunedig sy'n peri'r risg fwyaf i iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid
- gwella ansawdd a chysondeb rheolaethau swyddogol.
- gwireddu ein [hymrwymiad i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label](#)

Mae'r blaenoriaethau:

- wedi'u llywio gan adolygiad 2021 o Asesiad Bygythiadau Bwyd Anifeiliaid y DU (AFTA 2019)
- wedi'u datblygu trwy ymgynghoriad â'r diwydiant bwyd anifeiliaid a chynrychiolwyr awdurdodau lleol; Safonau Masnach Cenedlaethol ([NTS](#)); y Panel Amaethyddiaeth Cenedlaethol (NAP), ac aelodau'r Panel Bwyd Anifeiliaid mewn Porthladdoedd
- cefnogi ein cenhadaeth i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid trwy gyflawni gwelliannau parhaus o ran cydymffurfiaeth, trwy orfodaeth wedi'i harwain gan gudd-wybodaeth
- cefnogi'r dull wedi'i arwain gan gudd-wybodaeth a amlinellir yn y [Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd](#) ar gyfer blaenoriaethu ymyriadau mewn busnesau bwyd sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd

Mae casglu a chyfnewid gwybodaeth, data a chudd-wybodaeth rhwng awdurdodau cymwys, adrannau llywodraeth ganolog a'r diwydiant, gan gynnwys cynlluniau sicrwydd a gymeradwyr gan yr ASB, yn elfen ganolog o system rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol sydd wedi'u seilio ar risg.

Disgwylir i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth, yn cyfathrebu ac yn cyfnewid cudd-wybodaeth yn effeithiol yn unol â'r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, a'r Canllawiau Ymarfer. Ystyrir bod defnydd rhagweithiol o gronfeydd data cudd-wybodaeth cenedlaethol safonau masnach a gydnabyddir (fel [IDB](#) a Memex) yn allweddol i gofnodi a rhannu cudd-wybodaeth. Dylai awdurdodau lleol rannu'r holl gudd-wybodaeth maent yn ymwybodol ohoni mewn perthynas ag achosion hysbys o dwyll bwyd a /neu bwyd anifeiliaid, neu rai a amheuir, gan gynnwys achosion hanesyddol, gyda'r [Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd](#) (NFCU).

## Blaenoriaethau Cenedlaethol 2022/23

Nid yw'r blaenoriaethau wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn benodol; mae'r rhifau er hwylustod yn unig.

### Blaenoriaethau Bwyd Anifeiliaid

**Blaenoriaeth 1:** Gwirio bod systemau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu a'u cynnal a chadw'n effeithiol

**Blaenoriaeth 2:** Gwirio bod systemau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid mewn busnesau sy'n cyflenwi cyn-fwydydd neu gyd-gynhyrchion yn cael eu gweithredu a'u cynnal a chadw'n effeithiol

**Blaenoriaeth 3:** Monitro bwyd anifeiliaid ar ffermydd yn effeithiol

**a:** Archwilio cyn-fwydydd/cyd-gynhyrchion sy'n cael eu defnyddio fel bwyd anifeiliaid ar ffermydd

**b:** Gofynion cadw cofnodion ar y fferm a gweithdrefnau wedi'u dogfennu

**Blaenoriaeth 4:** Monitro trefniadau storio effeithiol mewn safleoedd bwyd anifeiliaid

**Blaenoriaeth 5:** Gwirio cywirdeb labelu bwyd anifeiliaid

**Blaenoriaeth 6:** Monitro yn effeithiol lwythi bwyd anifeiliaid o wledydd o'r tu allan i'r UE yn y manau cyrraedd

## Blaenoriaethau Hylendid Bwyd yn ystod Cynhyrchu Cynradd

**Blaenoriaeth 7:** Nodi, cofrestru ac arolygu busnesau bwyd sy'n cynhyrchu cynnyrch ffres risg uwch ar lefel cynhyrchu cynradd yn effeithiol.

Rhoddir rhagor o wybodaeth am bob blaenoriaeth yn yr adrannau isod.

# Blaenoriaethau Bwyd Anifeiliaid

## Blaenoriaeth 1: Gwirio bod systemau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu a'u cynnal a chadw'n effeithiol

Disgwylir i awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i wirio systemau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid, gan gynnwys gweithdrefnau ysgrifenedig parhaol wedi'i seilio ar egwyddorion Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP). Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid yn deall gofynion cyfreithiol, yn rhoi eu systemau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid a'u cynlluniau HACCP ar waith, ac yn eu cynnal ac yn eu hadolygu fel y bo'n briodol, gan ystyried natur, maint a graddfa'r busnes. Lle bo gan fusnes [berthynas awdurdod sylfaenol](#), rhaid i'r broses dilysu cydymffurfiaeth ystyried unrhyw gyngor a roddwyd gan awdurdod sylfaenol ac unrhyw gynlluniau arolygu gweithredol.

Dylai hyn gynnwys canolbwyntio ar y canlynol:

- a) nodi peryglon, gan sicrhau bod yr holl gamau yn y broses wedi'u hystyried a bod y broses grwpio camau (e.e. ystyried cynhwysion unigol) yn briodol ac nad yw'n cael ei gwneud mewn modd sy'n anwybyddu peryglon neu sy'n camasesu risg
- b) lle nad yw perygl wedi'i reoli'n ddigonol gan weithdrefn ragofynnol, caiff Pwyntiau Rheoli Critigol (CPPs) eu nodi'n gywir, eu diffinio'n briodol a'u rheoli'n effeithiol mewn modd prydlon. (PWYSIG: Mewn perthynas â bwyd amrwd i anifeiliaid anwes, dylai CCPs gynnwys cyrchu diogel)
- c) sicrhau bod systemau priodol ar waith er mwyn lleihau croeshalogi rhwng sypiau o fwyd anifeiliaid (yn enwedig mewn perthynas â'r rheiny sy'n cynnwys cocsidiostatau, meddyginiaethau milfeddygol neu [ychwanegion](#) bwyd anifeiliaid gyda'r lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer unrhyw rywogaeth darged
- d) rhoi rhaglenni samplu priodol ar waith yn y busnes bwyd anifeiliaid i wirio cydymffurfiaeth â'r lefelau uchaf o sylweddau annymunol mewn deunyddiau bwyd anifeiliaid ac ychwanegion bwyd anifeiliaid. Dylai gwiriadau gynnwys archwiliad o ganlyniadau dadansoddol ac ystyried a yw camau gweithredu priodol wedi'u cymryd

e) craffu ar systemau olrheiniadwyedd i sicrhau'r canlynol:

- i) bod cynnyrch yn gallu cael ei olrhain pe bai'n cael ei dynnu neu ei alw yn ôl
- ii) nad yw cynnyrch yn cael ei ddargyfeirio i'r gadwyn fwyd/bwyd anifeiliaid os nad yw wedi'i fwriadu ar gyfer defnydd bwyd anifeiliaid

## **Blaenoriaeth 2: Gwirio bod systemau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid mewn busnesau sy'n cyflenwi cyn-fwydydd neu gyd-gynhyrchion yn cael eu gweithredu a'u cynnal a chadw'n effeithiol**

Bob blwyddyn, mae oddeutu [650,000 o dunelli o gyn-fwydydd yn cael eu prosesu'n fwyd anifeiliaid yn y DU, sydd werth £110 miliwn](#). Lle bo cyn-fwydydd y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid yn cael eu cyflenwi gyda deunydd pecynnu, rhaid iddynt gael triniaeth bellach i dynnu'r deunydd pecynnu cyn iddynt gael eu defnyddio fel bwyd anifeiliaid. Cynhelir y broses hon yn aml mewn safle prosesu cyn-fwydydd arbenigol.

Mae NTS wedi creu [pecynnau adnoddau](#) i gefnogi swyddogion awdurdod lleol mewn perthynas â busnesau sy'n cyflenwi cyn-fwydydd a chyd-gynhyrchion.

Disgwylir i awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i ddilysu bod yna systemau rheoli bwyd anifeiliaid effeithiol, gan gynnwys gweithdrefnau ysgrifenedig parhaol wedi'u seilio ar egwyddorion HACCP mewn busnesau sy'n cyflenwi cyn-fwydydd neu gyd-gynhyrchion. Lle bo gan fusnes berthynas [awdurdod sylfaenol](#), rhaid i brosesau dilysu cydymffurfiaeth ystyried unrhyw gyngor a roddwyd gan awdurdod sylfaenol ac unrhyw gynlluniau arolygu gweithredol.

Yn ogystal â'r pwyntiau a gwmpesir gan Flaenoriaeth 1, dylai hyn gynnwys ffocws ar y canlynol:

- a) nodi pwyntiau rheoli er mwyn sicrhau bod deunydd yn addas i'w ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid, er enghraifft nad yw bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid a ffermir yn cynnwys eitemau megis cig, pysgod a physgod cregyn (gan gynnwys cynhyrchion sy'n eu cynnwys neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â nhw)
- b) gwahanu yn briodol ddeunydd na fwriedir ei ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid



- c) bod yna raglen hyfforddi gofnodedig briodol ar gyfer y staff sy'n gyfrifol am drin cyn-fwydydd
- d) bod deunydd ond yn cael ei gyflenwi i fusnes bwyd cofrestredig
- e) bod cyflenwyr a chludwyr yn y gadwyn prosesu cyn-fwydydd yn fwyd anifeiliaid a chyd-gynhyrchion oll wedi'u cofrestru fel busnesau bwyd anifeiliaid

## Blaenoriaeth 3: Monitro bwyd anifeiliaid ar ffermydd yn effeithiol

### 3a: Archwilio cyn-fwydydd/cyd-gynhyrchion sy'n cael eu defnyddio fel bwyd anifeiliaid ar ffermydd

Lle bo'n berthnasol, mae disgwyl i awdurdodau lleol archwilio a yw unrhyw gyn-fwydydd neu gyd-gynhyrchion a ddefnyddir fel bwyd anifeiliaid ar ffermydd yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- a) nid ydynt wedi'u halogi
- b) nid ydynt yn cynnwys sylweddau gwaharddedig a restrir yn Atodiad III i [Reoliad yr UE a Ddargedwir 767/2009](#) ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio
- c) maent yn tarddu o fusnes bwyd anifeiliaid cofrestredig

### 3b: Gofynion cadw cofnodion ar y fferm a gweithdrefnau wedi'u dogfennu

Dylid archwilio cydymffurfiaeth â'r gofynion cadw cofnodion a nodir yn Atodiadau I ac II i [Reoliad yr UE a Ddargedwir 183/2005](#) ar ffermydd, sy'n nodi'r gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid, gan gynnwys:

#### Atodiad I

- a) defnydd unrhyw gynhyrchion diogelu planhigion neu fioladdwyr;
- b) defnydd hadau a addaswyd yn enetig;
- c) unrhyw achosion o blâu ac afiechydon a allai effeithio ar ddiogelwch cynhyrchion cynradd;
- d) canlyniadau unrhyw ddadansoddiadau a gymerwyd o gynhyrchion crai neu samplau eraill a gymerwyd at ddibenion diagnostig sy'n bwysig o ran diogelwch bwyd;
- e) ffynhonnell a swm pob mewnbwn bwyd anifeiliaid, a chyrchfan a swm pob allbwn bwyd anifeiliaid;

ac, yn ogystal, ar gyfer ffermydd sy'n ddarostyngedig i ofynion Atodiad II (R10):

- a) cofnodion olrheiniadwyedd mewn perthynas â bwyd anifeiliaid a brynwyd, gyda ffocws neilltuol ar ychwanegion a neu/rag-gymysgeddau bwyd anifeiliaid
- b) gweithdrefnau wedi'u dogfennu sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP

## **Blaenoriaeth 4: Monitro trefniadau storio effeithiol mewn safleoedd bwyd anifeiliaid**

Ar bob cam o'r gadwyn bwyd anifeiliaid, mae storio ac adnabod cynhyrchion priodol yn angenrheidiol er mwyn atal cyflwyno peryglon i fwyd anifeiliaid.

Disgwylir i awdurdodau lleol flaenoriaethu'r canlynol:

- a) sicrhau bod deunydd ac ychwanegion bwyd anifeiliaid yn cael eu gwahanu oddi wrth fwyd anifeiliaid gorffenedig
- b) cadw bwyd anifeiliaid ar wahân i unrhyw ddeunyddiau nad ydynt yn fwyd anifeiliaid, fel cynhyrchion diogelu planhigion, cemegion glanhau a gwastraff ac ati a allai halogi'r bwyd anifeiliaid
- c) bod cyfleusterau'n ddiogel rhag peryglon allanol, e.e. glaw, carthffosiaeth a ffynonellau halogion eraill
- d) bod cynwysyddion bwyd yn addas ac yn lân, lle cânt eu defnyddio
- e) sicrhau bod modd adnabod bwyd mewn storfeydd yn rhwydd

## **Blaenoriaeth 5: Gwirio cywirdeb labelu bwyd anifeiliaid**

Mae gwybodaeth ar labeli bwyd anifeiliaid yn hanfodol i alluogi gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid trwy gydol y gadwn bwyd anifeiliaid i ddefnyddio deunyddiau a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu bwyd anifeiliaid neu fel bwyd anifeiliaid uniongyrchol yn briodol, ac ar gyfer olrheiniadwyedd pa bai cynnyrch yn cael ei dynnu neu ei alw'n ôl.

Disgwylir i awdurdodau lleol flaenoriaethu'r canlynol:

- a) gwirio bod yr ychwanegion sy'n bresennol mewn bwyd anifeiliaid wedi'u hawdurdodi (sydd wedi'u cynnwys yng [nghofrestr awdurdodiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid Prydain Fawr](#)) yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1831/2003](#) ar ychwanegion i'w defnyddio ym maes maetheg anifeiliaid
- b) gwirio cywirdeb honiadau fel y nodir yn Erthygl 13 o [Reoliad yr UE a Ddargedwir 767/2009](#) ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio

- c) sicrhau bod y wybodaeth am olrheiniadwyedd yn gywir ac yn ddigonol i nodi cyflenwr y bwyd anifeiliaid, a galluogi cadarnhau bod y bwyd anifeiliaid a gyflenwyd yn cyfateb i'r disgrifiad o'r hyn a brynwyd

## **Blaenoriaeth 6: Monitro llwythi bwyd anifeiliaid o wledydd y tu allan i'r UE mewn mannau cyrraedd yn effeithiol**

Mae bwyd anifeiliaid a fewnforir yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r bwyd anifeiliaid a ddefnyddir yn y DU. Er mwyn cefnogi dull cyson wedi'i seilio ar risg ar gyfer monitro mewnforion, disgwylir i awdurdodau lleol flaenoriaethu monitro llwythi bwyd anifeiliaid afreolaidd sy'n tarddu o wledydd nad ydynt yn yr UE (gan gynnwys bwyd anifeiliaid sydd wedi teithio trwy'r UE), gan ystyried:

- a) [Canllawiau NTS](#) ar gysondeb a blaenoriaethu cynnal rheolaethau swyddogol mewn mannau cyrraedd
- b) samplu llwythi sydd heb eu samplu'n ddiweddar, neu sydd heb eu gweld o'r blaen yn y man cyrraedd, neu lle bo rheswm dros gredu nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol
- c) y Dangosfwrdd Tebygolrwydd Risg ar gyfer [Cymru](#) a [Lloegr](#)

# Blaenoriaethau Hylendid Bwyd: Cynhyrchu Cynradd

## Blaenoriaeth 7: Nodi, cofrestru ac arolygu busnesau bwyd sy'n cynhyrchu cynnyrch ffres risg uwch ar lefel cynhyrchu cynradd yn effeithiol.

Disgwylir i awdurdodau lleol flaenoriaethu nodi, cofrestru ac arolygu busnesau bwyd sy'n cynhyrchu cynnyrch ffres risg uwch ar lefel cynhyrchu cynradd yn effeithiol. Rhoddir rhai enghreifftiau i egluro pob categori; fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhain fod yn rhestr gynhwysfawr, a chynghorir awdurdodau lleol i ddefnyddio eu barn broffesiynol.

Sef:

- a) cynhyrchwyr ffrwythau meddal ac aeron, er enghraifft mafon, mwyar, mwyar Mair, mwyar Logan, a mefus, y bydd yn anodd eu golchi'n drylwyr ar ôl eu cynaeafu heb ddifrodi'r cynnyrch
- b) cynhyrchwyr llysiau gwyrdd deiliog, ffrwythau salad, a llysiau:
  - i) sy'n cael eu bwyta'n amrwd fel arfer, er enghraifft letys, egin-ddail, dail ifanc, berwr dŵr, sbigoglys, perlysiau, a chiwcymbrau
  - ii) sydd â chyfnod hedyn-i-gynhaeaf byr, sy'n golygu eu bod yn debygol o gael eu cynaeafu o fewn 2 wythnos i'w dyfrhad diwethaf. Os yw dŵr dyfrhau wedi'i halogi, ni fydd yr halogiad hwn wedi cael digon o amser i wasgaru mewn cnydau â chyfnod tyfu byr
- c) cynhyrchwyr llysiau bylbiau a gwreiddlysiau, neu lysiau sydd heb groen amddiffynnol, a ddefnyddir yn aml yn amrwd, er enghraifft winwns, radis a seleri

# Canllawiau

## Bwyd Anifeiliaid

### Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)

[Deddfwriaeth bwyd anifeiliaid](#)

[Tynnu deunydd pecynnu safon bwyd oddi ar fwyd dros ben cyn iddo fynd i mewn i'r gadwyn bwyd anifeiliaid](#)

[Canllawiau ar ofynion HACCP ar gyfer ffermwyr](#)

### Safonau Masnach Cenedlaethol (NTS)

[Cyd-gynhyrchwyr a'r rheiny sy'n cyflenwi bwyd dros ben](#)

### Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Anifeiliaid (ACAF)

[Adolygiad o arferion bwydo ar y fferm](#)— argymhellion wedi'u diweddarau ar nodi peryglon a lleihau risgiau

### Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)

[Sut dylai busnesau bwyd waredu bwyd a chyn-fwydydd](#)

### Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)

[Cod Ymarfer Defra ar gyfer Rheoli Salmonela](#) wrth Gynhyrchu, Storio a Throsglwyddo Bwyd Anifeiliaid Cyfansawdd, Rhag-gymysgeddau, Deunyddiau Bwyd Anifeiliaid ac Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid

### Y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI)

[Rhaglenni rhagofynnol ar gyfer diogelwch bwyd wrth weithgynhyrchu bwyd a bwyd anifeiliaid](#)

### Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig (FAO) a Ffederasiwn y Diwydiant Bwyd Rhyngwladol (IFIF)

[Arferion da ar gyfer y Sector Bwyd Anifeiliaid](#): gweithredu Cod Ymarfer [Safonau Codex Alimentarius](#) ar fwydo anifeiliaid yn iawn

## Y Comisiwn Ewropeaidd

[Canllawiau Arferion Da](#) a ddatblygwyd yn unol ag Erthygl 22 o [Reoliad yr UE a Ddargedwir 183/2005](#), sy'n nodi gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid

- [Canllaw cymunedol ar gyfer arferion da i sector gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid cyfansawdd a rhag-gymysgeddau diwydiannol yr UE ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd](#) (Ffederasiwn Gweithgynhyrchwyr Bwyd Anifeiliaid Ewrop – FEFAC)
- [Canllaw cymunedol ar gyfer arferion da i weithredwyr ychwanegion a rhag-gymysgeddau bwyd anifeiliaid](#) (Y System Ansawdd a Diogelwch ar gyfer Cynhwysion Bwyd Arbenigol – FAMI-QS)
- [Canllaw arferion da ar gyfer gweithgynhyrchu bwydydd diogel ar gyfer anifeiliaid anwes](#) (Diwydiant Bwyd Anifeiliaid Ewrop – FEDIAF)
- [Canllaw arferion da Ewrop gyfer gweithgynhyrchu deunyddiau bwyd anifeiliaid diogel](#)
  - [Gweithgynhyrchu deunyddiau bwyd anifeiliaid diogel o brosesu startsh](#)
  - [Gweithgynhyrchu deunydd bwyd anifeiliaid diogel o wasgu hadau olew a phuro olew llyisiau](#)
  - [Gweithgynhyrchu deunydd bwyd anifeiliaid diogel o brosesu biodiesel](#)
  - [Rhestr wirio archwilio a ffeithlen Salmonela](#)
- [Canllawiau Arferion Hylendid Da Ewrop ar gyfer casglu, storio, masnachu a chludo grawnfwydydd, hadau olew, cynydau protein, cynhyrchion planhigion eraill a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt](#)

[Canllawiau Arferion Da](#) a ddatblygwyd yn unol ag Erthygl 26 o [Reoliad yr UE a Ddargedwir 767/2009](#) ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio

- [Cod arferion labelu da yr UE ar gyfer bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd \(FEFAC\)](#)
- [Y Cod Arferion Labelu Da ar gyfer Bwyd Anifeiliaid Anwes \(FEDIAF\)](#)

## Safonau'r Diwydiant

### **Cyddfederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol**

[Safonau Cynllun Sicrwydd Deunydd Bwyd Anifeiliaid \(FEMAS\)](#)

[Cynllun Sicrwydd Masnach ar gyfer Cnydau i'w Cynaeafu \(TASCC\)](#)

[Cynllun Rhyngwladol Sicrwydd Bwyd Anifeiliaid \(UFAS\)](#)

[Modiwl Gwirfoddol 9 BRC](#) – Rheoli Deunyddiau Bwyd ar gyfer Bwyd Anifeiliaid

### **Tractor Coch**

[Safonau Sicrwydd Bwyd](#)

### **Cynllun Gwarant Fferm Da Byw**

[Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru Cyf](#)



## **Bwyd Anifeiliaid a Fewnforir**

### **Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)**

[Rheolaethau Mewnforio Effeithiol ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid mewn porthladdoedd llai a meysydd awyr](#)

### **Cymdeithas Prif Swyddogion Safonau Masnach (ACTSO)**

[Rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth i gefnogi cynnal rheolaethau ar fwyd anifeiliaid a fewnforir](#)

### **Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)**

[Safleoedd Rheoli Ffiniau y DU: mewnforion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid](#)

## **Hylandid Bwyd Anifeiliaid: Cynhyrchu Cynradd**

### **Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)**

[Canllawiau arolygu hylandid bwyd – cynhyrchu cynradd](#)

**Dolenni i ffynonellau gwybodaeth a allai eich helpu i nodi cynhyrchwyr cynradd yn eich ardal**

[Defra – Strwythur y diwydiant amaeth yn Lloegr a'r DU ym mis Mehefin](#)

[Defra – Amaethyddiaeth yn y DU](#)

[Asiantaeth yr Amgylchedd – map o drwyddedau tynnu dŵr](#)

[Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth De Cymru \(AHDB\)](#)

[Cymdeithas tyfwyr Prydain](#)

[Pick your own farms](#)

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

I weld y drwydded hon,

ewch i: [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

e-bost [psi@nationalarchives.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gov.uk)

ysgrifennwch at: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU

Ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn:

lawrlwytho <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/blaenoriaethau-gorfodi-cenedlaethol-ar-gyfer-bwyd-anifeiliaid-a-hylendid-bwyd>

Cyfeirnod: FSA-NEPS-2022



Dilynwch ni ar Twitter: [@fsacymru](https://twitter.com/fsacymru)



Dewch o hyd i ni ar Facebook: [facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd](https://facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd)